
# Ffônau smart/clyfar yn yr ysgol - Holiadur Ciplun o Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru



## Comisiynydd Plant Cymru

## Hydref 2024

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cyflwyniad

Yn ystod mis Medi 2024 buon ni'n gofyn barn plant a phobl ifanc am eu meddyliau am ddefnyddio ffonau clyfar (smartphones) yn yr ysgol.

Roedd yr holiadur yn rhan o gyfres o gwestiynau ar wahanol bynciau rydyn ni'n eu gofyn i blant a phobl ifanc bob mis, dan yr enw Mater y Mis, er mwyn clywed eu barn ar amrywiaeth o bethau. Cafodd ei rannu'n uniongyrchol â'r holl ysgolion sy'n rhan o'n cynlluniau hawliau plant ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â grwpiau cymunedol.

Fel rhan o becyn yr holiadur, dangoswyd fideo i'r plant a'r bobl ifanc, yn cyflwyno'r pwnc, a gofynnwyd iddyn nhw ystyried rhai cwestiynau fel os oes ganddyn nhw ffôn clyfar (smartphone), ydyn nhw'n mynd a'r ffôn gyda nhw i'r ysgol, ac ydy nhw'n meddwl y dylai fod gan ysgolion fwy o reolau ynglyn a defnyddio ffôn clyfar (smartphone). Yn yr amlinelliad ar gyfer y sesiwn, roedden ni'n awgrymu, ar ôl gweld y fideo, y dylai plant a phobl ifanc gael amser i drafod eu barn gyda'i gilydd cyn ateb yr holiadur. Roedd gan ysgolion ddau opsiwn ar gyfer cwblhau'r holiadur; gallai plant a phobl ifanc ei wneud yn annibynnol, neu gallai athro gwblhau'r holiadur ar ran y grŵp, gan ateb set wahanol o gwestiynau i roi trosolwg o'r drafodaeth.

Atebodd 1,127 o blant a phobl ifanc yr holiadur yn unigol. Bu 2,170 o blant eraill yn cymryd rhan mewn grwpiau, gydag athrawon a gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno crynodeb o'u barn. Cymerodd ystod eang o oedrannau ran, o blant o dan 6 i rai at 18 oed. Derbyniwyd ymatebion gan ysgolion a grwpiau o fewn 18 awdurdod lleol.

Datblygwyd y cwestiynau gan dîm staff profiadol y Comisiynydd ar sail themâu oedd wedi dod i'r amlwg mewn ymarferion ymgysylltu blaenorol gyda phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

# Cwestiynau i'r plant a bobl ifanc

## Atebion Ysgolion Cynradd

**Oes gennyt ti smartphone? (Trwy smartphone, rydyn ni'n golygu ffôn sydd yn gallu mynd ar y wê a defnyddio apiau)**

Oes (261) - 62%
Nac oes (159) - 38%

**Wyt ti'n mynd â dy ffôn i'r ysgol?**

Nac ydw (198) - 77%
Ydw (59) - 23%

**Pam wyt ti'n mynd â'r ffôn i'r ysgol? Rwyt ti'n gallu dewis mwy nag un**

I allu anfon neges i fy nheulu (42) - 68%
Mae'n helpu fi deimlo'n ddiogel (38) - 61%
Rheswm arall (18) - 29%
Ar gyfer dysgu (6) - 10%
Mae fy ffrindiau yn mynd â ffôn (5) - 8%

**Beth yw'r rheswm arall?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Diogelwch wrth gerdded adref
- Life 360 (rhieni yn gwybod ble ydw i)

**Oes gan dy ysgol rheolau am ddefnyddio ffôn?**

Oes (288) - 68%
Dwi ddim yn gwybod (109) - 26%
Nac oes (24) - 6%

**Pa reolau sydd gan yr ysgol?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Rhaid rhoi ffôn mewn drôr arbennig yn y dosbarth / cael ei gadw gan yr athro
- Peidiwch â dod â'r ffôn i'r ysgol / dim caniatau ffonau yn yr ysgol
- Caniateir i gael ffôn ond ni chaniateir eu defnyddio yn ystod amser ysgol / ar dir yr ysgol

**Wyt ti'n meddwl bod angen mwy o reolau yn yr ysgol am ddefnyddio smartphone?**

Nac ydw (205) - 49%
Dwi ddim yn gwybod (122) - 29%
Ydw (94) - 22%

**Pa syniadau sydd gennyt ti am reolau newydd?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Dim ffonau yn yr ysgol
- Dim ond yn ystod amser egwyl / ar yr iard y dylech defnyddio'ch ffôn

**Wyt ti eisiau cael rheolau ar smartphones pan rwyt ti'n mynd i'r ysgol uwchradd?**

Nac ydw (171) - 41%
Dwi ddim yn gwybod (126) - 30%
Ydw (124) - 30%

**Pa rheolau hoffet ti gael?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Dim ffôn yn y gwersi
- Caniateir eu defnyddio yn ystod amser egwyl
- Caniatáu nhw yn yr ysgol (gan gynnwys eu cadw yn magiau’r disgyblion)

# <u>Atebion Ysgolion Uwchradd</u>

**Oes gennyt ti smartphone? (Trwy smartphone, rydyn ni'n golygu ffôn sydd yn gallu mynd ar y wê a defnyddio apiau)**

Oes (680) - 97%
Nac oes (21) - 3%

**Wyt ti'n mynd â dy smartphone i'r ysgol? (Wyt ti'n cymryd dy smartphone i'r ysgol?)**

Ydw (633) - 94%
Nac ydw (43) - 6%

**Pa mor aml wyt ti'n defnyddio dy smartphone yn yr ysgol?**

Weithiau (365) - 57%
Yn aml (141) - 22%
Byth (75) - 12%
Trwy'r amser (56) - 9%

**Pam wyt ti'n defnyddio dy smartphone yn yr ysgol? Mae hawl gennyt ti ddewis mwy nag un ateb.**

Cysylltu gyda theulu (382) - 68%
Cysylltu gyda ffrindiau (260) - 46%
Gwaith ysgol/dysgu (254) - 45%
Cyfryngau cymdeithasol (social media) (217) - 39%
Chwarae gemau (215) - 38%
Arall (61) - 11%

### Rheswm arall pam wyt ti'n defnyddio dy smartphone yn yr ysgol?

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Edrych ar amserlen yr ysgol ac apiau eraill yr ysgol
- Edrych ar yr amser
- Gwrando ar gerddoriaeth

### Oes hawl gennyt ti ddefnyddio dy smartphone yn y dosbarth?

Nac oes (636) - 91%
Oes (62) - 9%

### Ar gyfer beth wyt ti'n gallu ei ddefnyddio?

Dysgu interactif (fel cwisiau, côdau QR) (56) - 90%
I helpu fi ddysgu (fel apiau penodol, cyfieithu) (33) - 53%
Anghenion teulu (12) - 19%
Arall (8) - 13%
Anghenion meddygol/iechyd (5) - 8%
Wyt ti'n defnyddio dy smartphone yn y dosbarth?
Ydw - ar gyfer dysgu (299) - 48%
Na (235) - 38%
Ydw - ar gyfer rheswm arall (188) - 30%

### Wyt ti'n meddwl dylai pobl ifanc cael caniatad i ddefnyddio smartphones yn y dosbarth?

Ydw (433) - 62%
Nac ydw (265) - 38%

**Ydy smartphones yn tynnu dy sylw (distract) yn y dosbarth? (gallai hyn golygu dy ffôn di neu ffôn person arall)**

Na (433) - 62%
Ydyn - tipyn bach (214) - 31%
Ydyn - llawer (50) - 7%

**Pam ydyn nhw'n tynnu dy sylw?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Sŵn / uchel
- Hysbysiadau / Negeseuon
- Pobl yn eu defnyddio yn ystod dosbarth / tynnu sylw eraill / ddim yn gwrando yn ystod gwers

**Wyt ti eisiau mwy o reolau am smartphones yn yr ysgol?**

Nac ydw (347) - 51%
Dwi ddim yn siwr (249) - 36%
Ydw (90) - 13%

**Beth hoffet ti newid ynglyn â'r rheolau am smartphones yn dy ysgol di?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Defnyddio'r ffôn yn ystod amser egwyl ac amser cinio
- Mynediad anghyfyngedig
- Defnyddio nhw i ddysgu

# <u>Cwestiynau i athrawon</u>

Pan ymatebodd athrawon neu arweinwyr grŵp ar ran y grŵp, roedd eu atebion yn adleisio'r atebion a roddwyd gan blant yn uniongyrchol. Hefyd gofynnwyd cwestiwn i athrawon yn gofyn iddynt roi eu barn broffesiynol eu hunain ar y mater:

**Crynhowch y drafodaeth gaethoch chi fel grwp os gwelwch yn dda. Sut roedd y grwp yn teimlo am smartphones yn yr ysgol? Ydyn nhw eisiau mwy o reolau? Oes yna reolau yn bodoli yn barod? Sut ydyn nhw'n teimlo am y rheolau hynny?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Mae ffonau'n dda ar gyfer diogelwch / cyfathrebu â rhieni / argyfyngau / cerdded i'r ysgol ac adref
- Mae rheolau presennol yr ysgol yn ddigon teg / rheolau yn barod
- Dylid gwahardd ffonau – llai o dynnu sylw, mwy o ffocws
- Dylid defnyddio nhw at bwrpas addysg
- Syniad da eu cael yn yr ysgol – dangos bod ni’n ymddiried mewn pobl ifanc

**Oes yna rheolau yn barod am ddefnydd ffônau yn yr ysgol?**

Oes (52) - 96%
Nac oes (2) - 4%

**Beth yw'r rheolau?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Dim ffonau yn yr ysgol
- Caniateir ar safle’r ysgol ond rhaid ei ddiffodd / ei gadw mewn bag
- Mae unrhyw ffonau sy'n dod i mewn yn cael eu cadw gan athro / yn y swyddfa tan ddiwedd y dydd

**I ba raddau ydy defnydd ffônau yn effeithio ar eich gallu i ddysgu/ar wersi?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Ddim yn broblem / ddim yn berthnasol – peidiwch â chaniatáu ffonau yn y dosbarth
- Mae ffonau yn tynnu sylw'r addysgu
- Ffynhonnell gyson o wrthdaro / disgyblion yn edrych ar eu ffonau yn gyson / anwybyddu'r rheolau

**Hoffech chi gael rheolau newydd yn yr ysgol? Os felly, beth?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Na – mae'r rheolau presennol yn gweithio'n dda
- Gorfodi rheolau presennol gwell / cosbau llymach
- Gwahardd ffonau o'r ysgol

# Diweddglo

- Dywedodd 94% o blant ysgolion uwchradd eu bod yn mynd â'u ffôn i'r ysgol
- Dywedodd 68% o blant ysgolion uwchradd eu bod wedi defnyddio eu ffôn yn yr ysgol i anfon neges neu i ffonio eu teuluoedd. Roedd defnyddiau ymarferol eraill yn cynnwys edrych ar amserlen yr ysgol ac edrych ar yr amser
- Dywedodd 91% o blant ysgolion uwchradd nad ydynt yn cael defnyddio ffôn yn y dosbarth
- Ond dywedodd 30% o blant ysgolion uwchradd eu bod wedi defnyddio eu ffôn yn y dosbarth ar gyfer pethau arall heblaw dysgu
- Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn hapus gyda'u rheolau ysgol ar hyn o bryd
- Dywedodd 96% o athrawon fod rheolau eisoes yn yr ysgol ynglŷn â ffonau - roedd y rheolau hyn yn cynnwys dim ffonau yn yr ysgol, ffonau yn cael eu caniatáu ar y safle ond yn cael eu cadw yn y bag, ac atafaelu dyfeisiau
- Er bod rhai athrawon yn dweud nad yw ffonau yn achosi problemau sylweddol, dywedodd rhai fod ffonau yn destun rhwystredigaeth gyson, ac yn tynnu sylw oddi ar addysgu

## Beth ydym yn gwneud ag hyn?

Rydym wedi rhannu'r safbwyntiau hyn gyda Llywodraeth Cymru a Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sy'n cynnal ymchwiliad i ddeiseb fydd yn gwahardd ffonau clyfar mewn ysgolion.